GIG CYMRU NHS WALES | Perfformiad a Gwella Performance and Improvement

sands

# Llwybr cenedlaethol ar gyfer gofal mewn profedigaeth

## Llwybr Marwolaeth Annisgwyl Sydyn Ymhlith Babanod (SUDI)

**Gosod teuluoedd wrth galon gofal profedigaeth, ym mhob rhan o Gymru**

# Cyflwyniad

**Mae'r llwybr hwn yn cefnogi'r gwaith o ddarparu gofal mewn profedigaeth o ansawdd uchel i deuluoedd yn dilyn SUDI (marwolaeth annisgwyl sydyn ymhlith babanod).**

- **Mae rhagor o wybodaeth ac adnoddau ar gyfer y llwybr hwn ar gael yma.**
- **Mae gwybodaeth am NBCP Cymru, gan gynnwys pecynnau adnoddau, padlets a phecynnau cymorth ar gael yma.**
- **Mae gwybodaeth ategol ac arweiniad cenedlaethol ar gael yma.**

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 2

**Llwybr SUDI** 3

- Diffiniadau 3
- Pan fo plentyn yn marw'n annisgwyl 4
- Creu Atgofion a Bocsys Atgofion 6
- Cynllunio Gofal Personol 7
- Gofal a Chymorth ar Unwaith yn yr Ysbyty 8
- Asiantaethau Cysylltiedig a'r Broses Ymchwilio 9
- Y Crwner a'r Archwilydd Meddygol 10
- Archwiliad Post-mortem 11
- Rhoi Organau a Meinwe 12
- Profion Genetig ac Arbenigol 13
- Adolygu Marwolaethau Plant 14

**Cofrestru Marwolaeth a Threfniadau Angladd** 15

- Cofrestru Marwolaeth 15
- Angladdau, Claddu ac Amlosgi 16
- Cofrestru'r enedigaeth (os nad yw eisoes wedi'i gwblhau) 17
- Gofal Parhaus a Chefnogaeth Gymunedol 18

# Llwybr SUDI

## Diffiniadau

Mae'r ddogfen hon yn cyfeirio at y termau SUDI (marwolaeth annisgwyl sydyn ymhlith babanod) a SIDS (syndrom marwolaeth sydyn babanod).

**SUDI** – Marwolaeth plentyn na ragwelwyd ei fod yn bosibilrwydd sylweddol 24 awr cyn y farwolaeth, neu lle cafwyd ymgwympiad yr un mor annisgwyl yn arwain at y digwyddiadau a arweiniodd at y farwolaeth neu a wnaeth ei hachosi. Marwolaeth plentyn lle nad oes cyflwr blaenorol hysbys y gellid disgwyl iddo fod wedi achosi'r farwolaeth bryd hynny, a bod y plentyn wedi marw naill ai ar unwaith neu ar ôl hynny o ganlyniadau'r digwyddiad neu'r ymgwympiad a achosodd y digwyddiad (**Canllawiau PRUDiC**).

**SIDS** – mae hyn yn cyfeirio at farwolaeth sydyn ac annisgwyl baban o dan 12 mis oed nad oes esboniad ar ei chyfer o hyd ar ôl ymchwiliad trylwyr (**Coleg Brenhinol y Patholegwyr, 2016**).

Mae'r canllawiau hyn yn ymwneud â marwolaethau annisgwyl sydyn plant o dan 12 mis oed. Mae'n ymwneud â marwolaethau yn y gymuned ac mewn lleoliadau meddygol.

# Pan fo plentyn yn marw'n annisgwyl

Mae marwolaeth sydyn ac annisgwyl baban yn peri gofid mawr. Mae teuluoedd yn aml yn wynebu sioc, dryswch ac ofn llethol yn ystod yr oriau cyntaf. Mae'r gofal ar y cam hwn yn bwyllog, yn cael ei arwain yn glir ac yn dosturiol, gan gydnabod y gallai teuluoedd ei chael hi'n anodd dirnad gwybodaeth neu ddeall beth sy'n digwydd. Mae'r ffyrdd o **gyfathrebu** yn onest ac yn uniongyrchol, ac mae gweithwyr proffesiynol yn cymryd cyfrifoldeb dros gydlynu gofal fel nad yw teuluoedd yn ansicr ynghylch beth sy'n digwydd na beth fydd yn digwydd nesaf.

Mae ymateb amlasiantaeth sefydledig yn cael ei sbarduno yn dilyn marwolaeth annisgwyl sydyn ymhlith babanod. Dylai staff fod yn ymwybodol o'r **canllawiau Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaeth Annisgwyl yn ystod Plentyndod (PRUDiC)**. Mae PRUDIC yn gosod safon sylfaenol ar gyfer ymateb i farwolaethau annisgwyl ymhlith babanod ac yn ystod plentyndod. Mae'n disgrifio'r broses o gyfathrebu, gweithredu ar y cyd a rhannu gwybodaeth yn dilyn marwolaeth annisgwyl plentyn.

Bydd teuluoedd yn cael gwybod bod cynnwys yr heddlu a'r crwner yn arferol ac yn ofynnol yn ôl y gyfraith. **Mae'r prosesau hyn yn cael eu hegluro'n sensitif**, gan sicrhau teuluoedd eu bod yn cael eu rhoi ar waith er mwyn deall beth sydd wedi digwydd ac nad ydynt yn rhagdybiaeth o gamymddwyn. O'r eiliad y mae'r gwasanaethau brys yn cael eu cynnwys a thrwy gydol ymateb yr ysbyty, mae teuluoedd yn cael gofal cydlynol sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt, yn eu cefnogi ac yn eu tywys yn ystod cyfnod eithriadol o dorcalonnus.

## Timau

### Mae gofal tosturiol a chydlynol yn ystod yr ymateb cychwynnol yn cael ei ddangos pan:

- Mae'r dulliau cyfathrebu â theuluoedd yn glir ac yn uniongyrchol. Mae staff yn defnyddio'r gair "wedi marw" wrth gadarnhau marwolaeth yn hytrach nag unrhyw eiriau eraill.
- Mae cysylltiad yr heddlu a'r crwner yn cael ei egluro'n gynnar ac yn sensitif fel prosesau cyfreithiol arferol.
- Mae aelod o staff yr ysbyty yn cael ei neilltuo i aros gyda'r teulu, rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf a chynnig cymorth ymarferol.
- Mae teuluoedd yn cael eu cefnogi i gysylltu â pherthnasau, ffrindiau neu gynrychiolwyr ffydd.
- Mae rhieni neu ofalwyr yn cael eu cefnogi i aros yn bresennol yn ystod ymdrechion dadebru os ydynt yn dymuno.
- Mae gwybodaeth ysgrifenedig a **manylion cyswllt allweddol** yn cael eu darparu cyn i deuluoedd adael yr ysbyty.
- Mae trefniadau'n cael eu gwneud i atal rhagor o apwyntiadau rheolaidd neu ohebiaeth sy'n ymwneud â'r baban.
- Mae cydweithio rhwng asiantaethau yn lleihau'r angen i deuluoedd ailadrodd gwybodaeth.
- Edrychir ar ystyriaethau ymarferol, gan gynnwys teithio'n ddiogel adref ac anghenion cymorth ar unwaith.
- Mae'r holl drafodaethau a chamau gweithredu yn cael eu nodi'n glir yng nghofnodion iechyd y baban.

## Teuluoedd

Yn ystod yr ymateb cychwynnol, mae teuluoedd:

- Yn cael gwybod yn glir ac yn sensitif bod eu baban wedi marw.
- Yn deall pam mae angen cynnwys yr heddlu a'r crwner.
- Yn cael eu cefnogi gan weithiwr proffesiynol penodol sy'n aros gyda nhw.
- Yn cael **gwybodaeth lafar ac ysgrifenedig** am yr hyn fydd yn digwydd yn yr oriau i ddod.
- Yn cael manylion cyswllt ysgrifenedig ac yn gwybod at bwy i droi gyda chwestiynau.
- Yn teimlo eu bod yn cael eu trin â pharch, urddas a heb gael eu barnu.
- Yn cael eu cefnogi gydag anghenion ymarferol ar unwaith gan gynnwys gwybodaeth gan **2Wish**.

# Creu Atgofion a Bocsys Atgofion

Ar ôl ei archwilio a chynnal yr holl brofion angenrheidiol a chymryd samplau, dylid cynnig cyfle i'r teulu dreulio amser gyda'u baban. Bydd y crwner wedi cael gwybod, a bydd yr heddlu'n gweithredu ar ei ran, ac oni bai ei fod yn anghytuno, byddai disgwyl i'r teulu gael cynnig lle cefnogol i greu atgofion.

Ar y cam hwn, gall teuluoedd deimlo'n ofnus, wedi'u llethu neu'n ansicr ynghylch beth sy'n teimlo'n iawn iddyn nhw. Mae staff yn darparu cymorth digyffro, sensitif ac unigol, gan gynnig dewisiadau heb bwysau na rhagdybiaeth. Mae teuluoedd yn cael gofal sy'n rhoi amser, urddas a dewis iddynt o ran sut maent yn dymuno anrhydeddu a chofio eu baban.

## Timau

- Cefnogi teuluoedd i dreulio amser gyda'u baban a chynnig cyfleoedd i greu atgofion.
- Cynnig opsiynau fel gafael yn eu baban pan fo'n bosibl, olion dwylo neu olion traed, cudyn o wallt a ffotograffau.
- Cynnig y cyfleoedd hyn yn sensitif a heb bwysau, gan gydnabod y gallai rhai teuluoedd ddewis peidio â chreu cofarwyddion.
- Cynnig blwch atgofion sy'n cynnwys pethau i gofio am y baban a gwybodaeth am gymorth mewn profedigaeth gan sefydliadau fel **2Wish**.
- Gwneud yn siŵr bod bocsys atgofion yn cynnwys yr eitemau priodol a'u bod yn cael eu cyflwyno'n sensitif.
- Rhoi amser a lle preifat addas i deuluoedd wrth iddynt gael y bocs atgofion.
- Esbonio'n ofalus y gallai rhai offer meddygol neu eitemau clinigol fod yn bresennol o hyd pan fydd teuluoedd yn treulio amser gyda'u baban a dylid gwneud popeth posibl i sicrhau bod y lle'n dawel ac yn breifat.
- Egluro os nad ydynt yn barod i greu cofarwyddion ar hyn o bryd, efallai y bydd trefnwyr angladdau'n gallu helpu i greu atgofion yn nes ymlaen.

## Teuluoedd

- Byddant yn cael eu cefnogi i dreulio amser gyda'u baban a, phan fyddant yn dymuno hynny, i greu atgofion.
- Efallai y byddant yn dewis cadw cofarwyddion fel ffotograffau, olion llaw, olion traed neu gudyn gwallt.
- Dylid deall mai eu dewis nhw yw'r cyfleoedd hyn ac y gallant gymryd amser i benderfynu beth sy'n teimlo'n iawn iddyn nhw.
- Byddant yn cael eu paratoi'n ystyriol ar gyfer y posibilrwydd y gallai rhywfaint o offer meddygol neu eitemau clinigol fod yn bresennol o hyd wrth dreulio amser gyda'u baban.

# Cynllunio Gofal Personol

Mae cynllunio gofal yn canolbwyntio ar sicrhau bod teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu hysbysu, eu cefnogi a'u cynnwys mewn penderfyniadau sy'n parhau'n eiddo iddynt hwy. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal yn breifat ac ar gyflymder sy'n adlewyrchu gallu emosiynol. Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu'n glir ac mewn iaith hygyrch, gydag amser yn cael ei roi i holi cwestiynau a myfyrio. Pan fydd angen gwneud dewisiadau, bydd teuluoedd yn cael eu cefnogi i ystyried opsiynau heb bwysau. Mae gofal yn parhau'n dosturiol ac yn gyson ni waeth beth yw'r penderfyniadau a wneir.

## Timau

**Mae timau'n cefnogi penderfyniadau gwybodus a phersonol mewn ffordd amserol ac ystyriol. Dangosir hyn gyda'r canlynol:**

- Mae cyswllt profedigaeth allweddol yn cael ei nodi a'i gofnodi'n glir.
- Mae cynllun gofal personol yn cael ei ddatblygu, ei adolygu a'i ddiweddaru wrth i amgylchiadau newid.
- Mae trefniadau cyfathrebu, gan gynnwys pwy fydd yn arwain trafodaethau o bob asiantaeth, yn cael eu cofnodi a'u hesbonio.
- Mae opsiynau creu atgofion yn cael eu trafod, eu cofnodi a'u hailystyried yn sensitif.
- Mae anghenion ysbrydol, diwylliannol, ffydd a chymorth yn cael eu nodi a'u cofnodi.
- Mae'r holl drafodaethau a chynlluniau y cytunwyd arnynt yn cael eu cofnodi'n glir.

## Teuluoedd

**Mae teuluoedd yn cael gohebiaeth glir a chydlynol am eu dewisiadau, beth i'w ddisgwyl, a phwy sy'n eu cefnogi, ac:**

- Maent yn gwybod pwy yw eu prif gyswllt mewn profedigaeth a sut mae cysylltu â nhw.
- Maent yn gwybod gyda phwy y gallant gysylltu â nhw, pam, a phryd.
- Maent yn teimlo bod ganddynt wybodaeth am y dewisiadau sydd ar gael a'u bod yn cael eu cefnogi i wneud penderfyniadau ar gyflymder sy'n addas iddyn nhw.
- Maent yn deall y camau nesaf a ble y gallent ddigwydd.
- Maent yn cael gwybodaeth onest a sensitif am yr hyn i'w ddisgwyl, gan gynnwys newidiadau o ran sut mae eu baban yn edrych.
- Maent yn gwybod â phwy i gysylltu a sut i gael cymorth wrth ddychwelyd adref.

# Gofal a Chymorth ar Unwaith yn yr Ysbyty

Ar ôl cadarnhau marwolaeth baban, mae teuluoedd yn aml mewn sioc llwyr. Efallai na fyddant yn gallu prosesu gwybodaeth, ac efallai y byddant yn ei chael hi'n anodd deall beth sy'n digwydd o'u cwmpas. Mae gofal ar y cam hwn yn blaenoriaethu preifatrwydd, urddas a diogelwch emosiynol, gyda gweithwyr proffesiynol yn cymryd cyfrifoldeb dros arwain teuluoedd yn ystyriol drwy'r hyn sy'n digwydd nesaf.

Mae teuluoedd yn cael amser a lle gyda'u baban ac yn cael eu cefnogi i wneud penderfyniadau ar gyflymder sy'n addas iddyn nhw. Er bod yn rhaid i brosesau cyfreithiol ac ymchwilio ddechrau, mae'r rhain yn cael eu cydbwyso â gofal tosturiol a phrosesau cyfathrebu clir. Mae gweithwyr proffesiynol yn parhau'n gyfrifol am gydlynu fel nad yw teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu gadael neu eu llethu yn ystod yr oriau cynnar ar ôl marwolaeth eu baban.

Mae teuluoedd yn cael gofal sy'n rhoi amser iddyn nhw gyda'u baban, sy'n diogelu eu hurddas ac sy'n darparu cymorth pwyllog ac ymarferol yn ystod cyfnod anodd iawn.

## Timau

**Bydd gofal sensitif a chydlynol yn cael ei ddangos yn yr oriau ar ôl marwolaeth pan:**

- **Mae canllawiau cenedlaethol** yn cael eu deall a'u dilyn
- Mae man tawel, preifat a chyfforddus yn cael ei ddarparu i ffwrdd o'r prif fan clinigol.
- Mae teuluoedd yn cael amser di-dor gyda'u baban ac nid ydynt yn cael eu rhuthro.
- Mae rhieni neu ofalwyr yn cael eu cefnogi i ddal eu baban lle bo hynny'n bosibl.
- Mae teuluoedd yn cael eu paratoi'n ofalus y gallai offer meddygol fod yn bresennol o hyd.
- Os yw'r baban yn rhan o enedigaeth luosog, bydd dilyniant clinigol priodol yn cael ei drefnu ar gyfer brodyr a chwiorydd sy'n goroesi.
- Mae staff yn dilyn canllawiau lleol pan fydd brodyr a chwiorydd eraill yn bresennol.
- Mae sgyrsiau casglu gwybodaeth cynnar yn cael eu trefnu ar y cyd lle bynnag y bo modd er mwyn lleihau ailadrodd.
- Mae cymorth ymarferol yn cael ei gynnig, gan gynnwys trefniadau ar gyfer teithio adref neu lety arall os nad yw'n bosibl iddynt ddychwelyd adref ar unwaith.

## Teuluoedd

**Yn ystod y cyfnod hwn, mae teuluoedd yn cael gofal:**

- Mewn amgylchedd preifat a pharchus.
- Sy'n cynnwys cael lle i weld, dal a threulio amser gyda'u baban.
- Sy'n amlinellu sut mae apwyntiadau dilynol clinigol ar gyfer babanod lluosog sy'n goroesi yn arfer rheolaidd.
- Sy'n cynnig cyfleoedd i greu atgofion, heb bwysau.
- Sy'n amlinellu y gall rhai prosesau cyfreithiol gyfyngu ar rai camau gweithredu, a chaiff y rhain eu hesbonio'n glir.
- Sy'n cynnwys trefniadau i sicrhau gofal i'w plant eraill os ydynt yn yr ysbyty.
- Sy'n cynnwys cymorth ymarferol gydag anghenion uniongyrchol.
- Sy'n gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu trin â thosturi a heb gael eu barnu.

# Asiantaethau Cysylltiedig a'r Broses Ymchwilio

Yn dilyn marwolaeth sydyn ac annisgwyl yn ystod babandod, mae angen ymateb amlasiantaeth ffurfiol. Mae hyn yn cynnwys yr heddlu a chrwner a gall gynnwys gwasanaethau arbenigol eraill. Mae'r prosesau hyn yn rhai arferol a chânt eu dilyn i sefydlu, cyn belled ag y bo modd, sut a pham y bu farw'r baban.

Caiff teuluoedd eu cefnogi i ddeall bod y gweithdrefnau hyn yn ofynnol yn ôl y gyfraith ac nad ydynt yn rhagdybio camymddwyn. Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu'n glir ac yn sensitif, gyda gweithwyr proffesiynol yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb dros gydlynu a chyfathrebu fel nad yw teuluoedd yn ansicr am yr hyn sy'n digwydd. Drwy gydol y broses ymchwilio, mae teuluoedd yn cael gofal sy'n cydbwyso gofynion ymholiadau cyfreithiol a chlinigol â thosturi, urddas a dulliau cyfathrebu clir.

## Pam mae'r Heddlu'n cael eu cynnwys

Mae presenoldeb yr heddlu yn rhan o'r ymateb amlasiantaeth safonol yn dilyn marwolaeth sydyn ac annisgwyl babanod. I deuluoedd, gall presenoldeb yr heddlu deimlo'n frawychus neu'n ddryslyd ar adeg sydd eisoes yn llethol. Mae esboniad clir a chyfathrebu pwyllog yn helpu teuluoedd i ddeall bod cynnwys yr heddlu yn arferol ac nad yw'n awgrymu amheuaeth neu gamymddwyn.

## Timau

**Mae gofal sy'n bwyllog, yn barchus ac yn cael ei egluro'n glir yn helpu i leihau ofn a chamddealltwriaeth yn cael ei ddangos pan:**

- Mae cysylltiad yr heddlu'n cael ei egluro'n gynnar ac yn bwyllog fel mater o drefn.
- Mae termau fel "lleoliad y drosedd" neu "farwolaeth amheus" yn cael eu hosgoi.
- Mae presenoldeb swyddogion mewn gwisg ffurfiol yn cael ei reoli'n synhwyrol.
- Mae teuluoedd yn barod am y posibilrwydd y bydd ffotograffau'n cael eu tynnu ac eitemau personol yn cael eu harchwilio neu eu cadw dros dro.
- Mae cydweithio rhwng swyddogion proffesiynol yn lleihau'r angen i deuluoedd ailadrodd gwybodaeth.
- Mae trefniadau ymarferol yn cael eu trafod, yn enwedig pan nad yw teuluoedd yn gallu dychwelyd adref ar unwaith.

## Teuluoedd

**Pan gaiff presenoldeb yr heddlu ei esbonio'n glir a'i drin yn sensitif, bydd teuluoedd:**

- Yn deall pam mae'r heddlu'n rhan o'r digwyddiad.
- Yn cael eu paratoi ar gyfer ymweliad â'r cartref neu'r lleoliad.
- Yn gwybod efallai y bydd angen ffotograffau neu eitemau personol fel rhan o'r ymchwiliad.
- Yn teimlo eu bod yn cael eu trin â pharch ac nad ydynt yn cael eu barnu.

# Y Crwner a'r Archwilydd Meddygol

Bydd y crwner yn cael gwybod am farwolaeth sydyn ac annisgwyl babanod. Efallai y bydd teuluoedd yn teimlo'n bryderus neu'n ansicr ynghylch beth mae hyn yn ei olygu a sut y bydd yn effeithio ar yr amser y gallant ei dreulio gyda'u baban neu wneud trefniadau angladd. Mae esboniadau clir a sensitif yn helpu teuluoedd i ddeall rôl y crwner a beth i'w ddisgwyl yn ystod y broses hon.

## Timau

**Mae cyfathrebu clir a chydlynol yn helpu teuluoedd i ddeall rôl y crwner a beth i'w ddisgwyl yn ystod y broses hon pan:**

- Mae teuluoedd yn cael gwybod bod y farwolaeth wedi cael ei rhannu â'r crwner.
- Mae rôl y crwner a, lle bo hynny'n berthnasol, yr archwilydd meddygol, yn cael ei hesbonio'n glir.
- Mae teuluoedd yn deall y gallai trefniadau angladd a chofrestru ffurfiol gael eu gohirio.
- Mae enw cyswllt yn swyddfa'r crwner yn cael ei nodi ar gyfer y teulu.
- Mae gweithwyr proffesiynol yn aros yn unol â'u cwmpas ymarfer wrth drafod prosesau ymchwilio.
- Mae teuluoedd yn cael gwybod y gall cwest gael ei gynnal ac y gall y broses hon fod yn hir.
- Mae diweddariadau'n cael eu rhannu'n sensitif a heb amserlenni afrealistig.
- Mae teuluoedd yn cael manylion Gwasanaeth Cymorth y Crwner.
- Mae'r staff yn gwybod ble i ddod o hyd i'r canllawiau yng **Nghyfres Arferion Da Coleg Brenhinol y Patholegwyr.**

## Teuluoedd

**Pan fydd rôl a phrosesau'r crwner yn cael eu hegluro'n glir, bydd teuluoedd:**

- Yn deall pam mae angen cynnwys y crwner.
- Yn gwybod na ellir rhyddhau corff y baban nes bydd rhai prosesau wedi'u cwblhau.
- Yn gwybod y gall amserlenni ymestyn dros fisoedd.
- Yn gwybod â phwy i gysylltu os oes ganddynt gwestiynau.
- Yn deall ei fod yn gallu cysylltu â'r **Gwasanaeth Cymorth y Crwner.**

# Archwiliad Post-mortem

Gall archwiliad post-mortem fod yn rhan bwysig o ddeall pam mae baban wedi marw. Efallai y bydd teuluoedd yn teimlo'n ansicr neu'n ofidus pan fydd yr archwiliadau hyn yn cael eu trafod, yn enwedig pan fyddant yn dal i brosesu sioc marwolaeth eu baban. Mae gwybodaeth glir a sensitif yn helpu teuluoedd i ddeall pwrpas yr archwiliad a'r hyn y mae'n ei olygu, gan gynnwys pan fydd angen trosglwyddo i ganolfan patholeg bediatrig arbenigol.

## Timau

**Mae sgyrsiau sensitif ar gyflymder addas yn helpu teuluoedd i ddeall pwrpas archwiliad post-mortem a'r hyn y gallai ei olygu yn cael ei ddangos pan:**

- Mae pwrpas archwiliad post-mortem yn cael ei egluro'n glir.
- Mae teuluoedd yn fodlon y gallai fod angen i'w baban deithio i ganolfan arbenigol.
- Mae teuluoedd yn cael eu sicrhau y bydd y baban yn cael ei drin ag urddas a pharch.
- Mae teuluoedd yn cael gwybod ble mae eu baban a phryd y disgwylir i archwiliadau gael eu cynnal.
- Mae trafodaethau am samplau meinweoedd a phenderfyniadau dilynol yn cael eu trin yn sensitif ac ar adeg briodol.
- Mae teuluoedd yn cael eu cefnogi gyda phenderfyniadau ynghylch gweld neu ddal eu baban ar ôl archwiliad, lle bo hyn yn bosibl.

## Teuluoedd

**Pan fydd archwiliad post-mortem yn cael ei egluro'n glir ac yn sensitif, bydd teuluoedd:**

- Yn deall pam mae angen archwiliad post-mortem.
- Yn gwybod ble mae'r baban yn ystod y broses hon.
- Yn cael eu cefnogi i wneud penderfyniadau gwybodus am gyswllt pellach.
- Yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth am amserlenni disgwyliedig.

# Rhoi Organau a Meinwe

Mae trafod rhoi organau a meinwe yn rhan o ofal arferol yn dilyn marwolaeth yng Nghymru. Efallai y bydd teuluoedd yn clywed yr wybodaeth hon ar adeg o drallod a sioc enfawr. Mae sgyrsiau'n cael eu trin yn sensitif, gan roi amser a lle i deuluoedd ystyried eu hopsiynau heb bwysau.

## Timau

**Mae sgyrsiau am roi organau yn cael eu trin yn sensitif a bydd parch at ddewis y teulu yn cael ei ddangos pan fydd timau:**

- Yn Cysylltu â'r Llinell Atgyfeirio Rhoi Organau yn ôl yr angen.
- Yn rhannu gwybodaeth yn sensitif a heb bwysau.
- Yn parchu penderfyniadau teuluoedd.

## Teuluoedd

**Pan fydd rhoi organau'n cael ei drafod mewn ffordd gefnogol, heb bwysau, bydd teuluoedd:**

- Yn deall bod rhoi organau'n cael ei ystyried fel mater o drefn.
- Yn teimlo eu bod yn gallu gwneud penderfyniad heb gael eu gorfodi.

# Profion Genetig ac Arbenigol

Mewn rhai amgylchiadau, mae modd ystyried profion arbenigol neu brofion genomig ychwanegol yn dilyn trafodaeth amlddisgyblaethol. Efallai y bydd teuluoedd yn ystyried y sgyrsiau hyn yn anodd tra byddant yn dal i chwilio am atebion ynghylch pam y bu farw eu baban. Mae esboniadau clir yn helpu teuluoedd i ddeall pwrpas yr ymchwiliadau hyn ac efallai na fyddant yn nodi achos pendant.

Mae profion genomig yn cael eu cynnal drwy **Wasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan (AWMGS)**. Cyn ystyried profion genomig, dylid dilyn protocolau marwolaeth sydyn ymhlith babanod a marwolaeth sydyn heb esboniad, gan gynnwys ymchwiliadau safonol ac archwiliad post-mortem.

## Timau

**Mae esboniad clir yn helpu teuluoedd i ddeall pam y mae modd ystyried ymchwiliadau ychwanegol a'r hyn y gallant ei ddatgelu neu beidio â'i ddatgelu. Bydd hyn yn cael ei ddangos pan fydd timau:**

- Yn dilyn protocolau sefydledig marwolaeth sydyn ymhlith babanod a phrotocolau marwolaeth sydyn plentyn heb esboniad.
- Yn aros am ganlyniadau ymchwiliadau safonol ac archwiliadau post-mortem cyn ystyried profion genomig.
- Yn cynnull trafodaeth amlddisgyblaethol briodol lle gellir nodi profion genomig, sy'n cynnwys gwasanaethau paediatreg, patholeg a geneteg glinigol yn ôl yr angen.
- Yn cyfeirio at Wasanaeth Genomeg Feddygol Cymru Gyfan (AWMGS) i gael **arweiniad ar brofion genomig a llwybrau atgyfeirio.**
- Yn esbonio'n glir beth allai'r profion ei olygu, a beth allai'r canlyniadau ei nodi neu beidio â'i nodi.

## Teuluoedd

**Pan fydd profion ychwanegol yn cael eu trafod yn glir ac yn sensitif, bydd teuluoedd:**

- Yn deall pryd mae profion ychwanegol yn cael eu hystyried.
- Yn deall pwrpas profion genomig a sut y gallant helpu i ymchwilio i farwolaeth eu baban.
- Yn cael gwybod efallai na fydd rhai ymchwiliadau'n canfod achos y farwolaeth.

# Adolygu Marwolaethau Plant

Mae pob marwolaeth ymhlith babanod, plant a phobl ifanc yn cael ei hadolygu drwy'r **Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant**. Gall y broses hon ddigwydd ochr yn ochr â galar ac ansicrwydd parhaus i deuluoedd. Mae esboniadau clir yn helpu teuluoedd i ddeall bod yr adolygiad yn canolbwyntio ar ddysgu ac atal, a bod modd cynnwys eu safbwyntiau a'u cwestiynau.

## Timau

**Mae dulliau cyfathrebu clir a thosturiol yn helpu teuluoedd i ddeall pwrpas y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant a sut y gallant gyfrannu ati. Dangosir hyn pan:**

- Mae teuluoedd yn cael gwybod y bydd y broses Adolygu Marwolaethau Plant yn cael ei chynnal a pham ei bod yn cael ei chynnal.
- Mae pwrpas yr adolygiad yn cael ei esbonio'n glir fel ffordd o ddysgu ac atal yn hytrach nag ymchwilio i'r teulu.
- Mae teuluoedd yn cael gwahoddiad i rannu cwestiynau neu wybodaeth yr hoffent iddynt gael eu hystyried yn ystod yr adolygiad.
- Mae rôl gweithiwr allweddol y Rhaglen Adolygu Marwolaethau Plant yn cael ei hegluro wrth gefnogi dulliau cyfathrebu rhwng gweithwyr proffesiynol a theuluoedd.
- Mae teuluoedd yn gwybod sut y byddant yn cael diweddariadau neu ganlyniadau'r adolygiad.
- Mae'r dulliau cyfathrebu rhwng asiantaethau yn cael eu cydlynu ac ni fydd angen gofyn i deuluoedd am yr un wybodaeth dro ar ôl tro.

## Teuluoedd

**Pan fydd y broses adolygu'n cael ei hesbonio a'i chydlynu gan dimau, bydd teuluoedd:**

- Yn deall bod marwolaeth pob plentyn yn cael ei hadolygu.
- Yn gwybod beth yw pwrpas yr adolygiad a sut mae'n cyfrannu at ddysgu ac atal.
- Yn teimlo eu bod yn gallu rhannu cwestiynau neu wybodaeth yr hoffent iddynt gael eu hystyried.
- Yn gwybod â phwy i gysylltu os hoffent gael rhagor o wybodaeth am y broses.

# Cofrestru Marwolaeth a Threfniadau Angladd

Yn dilyn marwolaeth sydyn ac annisgwyl baban, rhaid i rai prosesau cyfreithiol gael eu cynnal cyn y bydd modd cofrestru'r farwolaeth yn ffurfiol a chwblhau trefniadau angladd. I deuluoedd, mae'r prosesau hyn yn aml yn digwydd ochr yn ochr â galar ac ansicrwydd difrifol, a gall yr amserlenni dan sylw deimlo'n anodd eu deall.

Mae'r gofal ar y cam hwn yn canolbwyntio ar egluro beth fydd yn digwydd a pham, ar gyflymder addas i deuluoedd. Mae gweithwyr proffesiynol yn cymryd cyfrifoldeb dros arwain teuluoedd drwy'r camau cyfreithiol ac ymarferol hyn fel nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu gadael i lywio drwy systemau anghyfarwydd ar eu pen eu hunain. Mae teuluoedd yn cael gwybodaeth glir, cefnogaeth ymarferol ac amser i ystyried penderfyniadau am gofrestru a threfniadau angladd.

## Cofrestru Marwolaeth

Gan fod y farwolaeth wedi cael ei chyfeirio at y crwner, fel arfer does dim modd cofrestru marwolaeth y baban ar unwaith. Mae esboniad clir yn helpu teuluoedd i ddeall pam y gallai oedi ddigwydd cyn cofrestru a beth fydd yn digwydd nesaf.

### Timau

**Mae gofal sy'n cael ei egluro'n glir a'i gydlynu'n dda yn helpu teuluoedd i ddeall y broses gofrestru. Dangosir hyn pan:**

- Mae teuluoedd yn cael gwybod y gallai'r broses o gofrestru'r farwolaeth gael ei gohirio tra bydd ymchwiliadau'n cael eu cwblhau.
- Mae rôl y crwner wrth bennu achos y farwolaeth yn cael ei hegluro'n glir.
- Nodir bod modd rhoi tystysgrif marwolaeth dros dro er mwyn caniatáu i drefniadau'r angladd fynd rhagddynt.
- Mae gwybodaeth ysgrifenedig am y broses gofrestru yn cael ei rhoi.

### Teuluoedd

**Pan gaiff y broses gofrestru ei hesbonio'n glir ac yn sensitif, bydd teuluoedd:**

- Yn deall nad oes modd cofrestru'r farwolaeth ar unwaith.
- Yn gwybod y gall y crwner gyhoeddi tystysgrif marwolaeth dros dro tra bydd ymchwiliadau'n parhau.
- Yn cael gwybodaeth glir ynghylch pryd a sut y bydd y cofrestru'n digwydd yn y pen draw.

# Angladdau, Claddu ac Amlosgi

Does dim modd cynnal angladdau nes bydd y crwner wedi awdurdodi bod modd rhyddhau corff y baban. I deuluoedd, mae'r penderfyniadau hyn yn cael eu gwneud yn ystod cyfnod sy'n arwyddocaol yn emosiynol ac efallai y byddant yn teimlo eu bod yn anodd eu trafod. Mae staff yn tywys teuluoedd drwy'r dewisiadau sydd ar gael iddynt a'r amserlenni, gan ddarparu gwybodaeth glir a chaniatáu amser iddynt feddwl. Mae teuluoedd yn cael gofal sy'n cefnogi dewis ar sail gwybodaeth ac sy'n parchu sut a phryd mae penderfyniadau'n cael eu gwneud.

## Timau

### Bydd cefnogaeth sensitif a gwybodus ynghylch y trefniadau hyn yn cael ei chynnig pan:

- Mae gan staff fynediad at adnoddau gwybodaeth cyfredol i gefnogi trafodaethau am gladdu ac amlosgi.
- Mae teuluoedd yn cael amser i ystyried pob opsiwn, gan gynnwys y cyfle i feddwl gartref cyn cadarnhau penderfyniad.
- Mae penderfyniadau, gan gynnwys pan fydd gwybodaeth yn cael ei gwrthod neu pan na fydd penderfyniad yn cael ei wneud, yn cael eu cofnodi'n glir yng nghofnod meddygol y baban.
- Mae rhagdybiaethau'n cael eu hosgoi, gan gynnwys y rhai sy'n seiliedig ar gyfnod beichiogrwydd, diwylliant, crefydd neu gredoau personol.
- Bydd atgyfeiriad at ofal ysbrydol neu fugeiliol yn cael ei gynnig, wedi'i arwain gan ddewisiadau'r teulu.

### Mae'r wybodaeth lafar ac ysgrifenedig fydd yn cael ei rhannu â theuluoedd yn cynnwys:

- Dewisiadau claddu neu amlosgi wedi'u trefnu gan yr ysbyty ac unrhyw gostau cysylltiedig.
- Y broses ar gyfer dewis trefniadau preifat, gan gynnwys manylion trefnwyr angladdau lleol.
- Esboniad clir y gall rhai trefnwyr angladdau ddarparu gwasanaethau sylfaenol yn ddi-dâl, tra gall gwasanaethau ychwanegol arwain at gostau a gwybodaeth am y **cymorth ariannol sydd ar gael.**
- Amserlenni ar gyfer gwneud penderfyniadau a'u cyfleu, gan gynnwys proses yr ysbyty os na chaiff penderfyniad ei gyfleu.
- Gwybodaeth am ofynion claddu neu amlosgi brys lle mae'r rhain yn codi am resymau clinigol neu gyfreithiol.

## Teuluoedd

### Wrth i staff esbonio a chefnogi trefniadau'r angladd, mae teuluoedd:

- Yn deall yr opsiynau sydd ar gael iddynt ar gyfer claddu neu amlosgi.
- Yn teimlo bod ganddynt ddigon o amser cyn cadarnhau penderfyniadau.
- Yn deall yr hyn y gall yr ysbyty ei drefnu a'r hyn y gallant ddewis ei drefnu eu hunain.
- Yn cael gwybodaeth glir am gostau, amserlenni a'r cymorth ariannol sydd ar gael.
- Yn teimlo bod eu dewisiadau diwylliannol, crefyddol a phersonol yn cael eu parchu.
- Yn gwybod ble i gael gafael ar ragor o gymorth os oes angen help arnynt i wneud penderfyniadau.

# Cofrestru'r enedigaeth (os nad yw eisoes wedi'i gwblhau)

Mewn rhai achosion, efallai nad yw genedigaeth y baban wedi'i chofrestru eto. Gall teuluoedd wynebu'r broses hon wrth barhau i ymdopi â sioc a galar ar ôl marwolaeth eu baban. Mae esboniad clir a chanllawiau ymarferol yn helpu teuluoedd i ddeall sut mae cofrestru genedigaethau yn cyd-fynd â phrosesau'r crwner a phryd y gellir gwneud hynny.

## Timau

**Mae canllawiau clir ac ymarferol yn helpu teuluoedd i ddeall sut a phryd y gellir cofrestru genedigaethau pan fydd timau:**

- Yn esbonio pryd a sut mae modd cofrestru genedigaethau.
- Yn rhoi gwybod i deuluoedd y gall cofrestru genedigaeth ddigwydd yr un pryd â chofrestru marwolaeth yn aml.
- Yn rhannu gwybodaeth ymarferol ynghylch ble a sut y bydd hyn yn digwydd.

## Teuluoedd

**Pan fydd y broses o gofrestru genedigaeth yn cael ei hegluro'n glir a'i chefnogi gan staff, bydd teuluoedd:**

- Yn deall sut a phryd y byddant yn gallu cofrestru genedigaeth y baban os nad yw hyn wedi cael ei wneud yn barod.

# Gofal Parhaus a Chefnogaeth Gymunedol

Ar ôl gadael yr ysbyty, mae teuluoedd yn aml yn gorfod aros am gyfnod hir tra bydd ymchwiliadau'n parhau. Yn ystod y cyfnod hwn, gallant brofi galar dwys, ansicrwydd a heriau ymarferol. Efallai y bydd cyswllt â gweithwyr proffesiynol yn digwydd yn llai aml, sy'n gallu gwneud i deuluoedd deimlo'n unig neu'n ansicr ble i droi am wybodaeth neu gymorth.

Mae'r gofal ar y cam hwn yn canolbwyntio ar gynnal cyswllt, sicrhau bod teuluoedd yn gwybod at bwy i droi gyda chwestiynau a'u cefnogi i gael gafael ar gymorth emosiynol, ymarferol a chymunedol. Mae gweithwyr proffesiynol yn parhau'n gyfrifol am gydlynu dulliau cyfathrebu fel nad yw teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu gadael i ymdopi â phrosesau cymhleth ar eu pen eu hunain. Mae teuluoedd yn cael gofal parhaus sy'n cynnig dilyniant, gwybodaeth glir a mynediad at gymorth wrth iddynt aros am atebion am farwolaeth eu baban.

## Timau

**Mae gofal dilynol tosturiol, wedi'u gydlynu, yn helpu teuluoedd i gael yr wybodaeth ddiweddaraf a chael eu cefnogi yn ystod y broses ymchwilio. Dangosir hyn pan:**

- Mae teuluoedd yn cael gwybod sut, pryd a chan bwy y byddant yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ymchwiliadau ac adolygiadau.
- Mae cyswllt dilynol yn cael ei gynnig ar ôl i'r teulu adael yr ysbyty i wirio eu lles a'u hanghenion uniongyrchol.
- Mae cyfarfodydd yn cael eu trefnu i drafod canlyniadau neu ddiweddariadau gyda digon o rybudd ac amser i holi cwestiynau.
- Mae gwybodaeth yn cael ei rhannu â theuluoedd wyneb yn wyneb, yn enwedig wrth drafod canlyniadau ymchwiliad.
- Mae timau'n cysylltu â'i gilydd, fel nad oes angen i deuluoedd ailadrodd eu stori.
- Mae teuluoedd yn cael gwybodaeth am sefydliadau cymorth mewn profedigaeth cenedlaethol a lleol.
- Mae'r farwolaeth wedi digwydd yn ystod y cyfnod ôl-enedigol, mae gwybodaeth glir yn cael ei rhannu am ofal parhaus i'r fenyw/sawl sy'n geni, gan gynnwys cymorth llaetha a phryd a sut i ofyn am gyngor meddygol.
- Mae manylion cyswllt i gael cymorth dal ar gael hyd yn oed pan fydd cyfnodau hir heb ddiweddariadau ymchwiliol.

## Teuluoedd

**Pan fydd gofal parhaus yn cael ei gydlynu a'r dulliau cyfathrebu'n parhau'n glir, bydd teuluoedd:**

- Yn gwybod pwy i gysylltu â nhw a sut i gysylltu â nhw.
- Yn cael gwybod am gynnydd ymchwiliadau ac adolygiadau.
- Yn cael cynnig cyfleoedd i holi cwestiynau a thrafod canlyniadau.
- Yn cael gwybodaeth am wasanaethau cefnogi sydd ar gael yn lleol ac yn genedlaethol.
- Yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth wrth aros am atebion.
- Yn gwybod y gallant ofyn am help ar unrhyw adeg os ydynt yn teimlo bod angen cymorth ychwanegol arnynt.

GIG CYMRU NHS WALES

Perfformiad a Gwella

Performance and Improvement